



Mynychwyr (drwy gysylltiad fideo):

David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker (y 30 munud cyntaf), Isabel Nisbet, Jayne Woods.

Yn Bresennol (drwy gysylltiad fideo):

Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS),

Ymddiheuriadau:

Claire Morgan

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi

1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i bedwerydd cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau newydd o fuddiant. Nid oedd unrhyw gamau heb eu cymryd.

2. Cofnodion

2.1. Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod blaenorol.

3. Diweddariad ar y gwaith hyd yma – Ymgynghori ac ESW

3.1. Ymgynghoriad: Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 28 Ebrill. Yn ystod yr oriau cyntaf, derbyniwyd 482 o ymatebion (361 i'r prif arolwg, 121 i'r arolwg cyfeillgar i bobl ifanc). Roedd y rhan fwyaf yn ymatebion cytuno/anghytuno heb naratif ychwanegol. Aeth PB drwy'r ganran a oedd yn cytuno/cytuno'n gryf yn erbyn pob cynnig. Roedd dau gwestiwn lle nad oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion (i) na allai dysgwyr apelio yn erbyn dyfarniadau proffesiynol a (ii) mai dim ond canolfannau a allai gyflwyno apelïadau. Nid oedd hyn yn annisgwyl, ond byddai'r rhain yn feysydd y byddai angen eu trafod gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac â chyfreithwyr.

3.2. Gofynnodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen am adnoddau i gwblhau'r dadansoddiad. Esboniodd JR fod y feddalwedd yn dadansoddi sgorau, naratif oedd yr hyn a gymerai amser. Byddai dau aelod o staff ymchwil yn sefydlu'r strwythur codio ac yn codio'r naratif. Roedd cynlluniau wrth gefn ar waith pe bai angen mwy o staff i godio naratif, ond y dewis oedd cyfyngu ar y staff a oedd yn ymwneud â'r gwaith. Byddai gwaith codio yn cael ei ddechrau cyn gynted ag y derbynnid ymatebion.

3.3. Y bwriad oedd cyhoeddi crynodeb o'r ymgynghoriad tua 16-18 Mehefin a chyhoeddi dadansoddiad manylach bythefnos yn ddiweddarach.

3.4. Trafododd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y tensiynau yn y system a'r mathau posibl o heriau. Gofynnwyd ynghylch gwaith paratoi ar gyfer unrhyw adolygiad barnwrol. Cadarnhaodd JR ac AS fod hyn wedi'i drafod gyda chyfreithwyr, y cyngor oedd

dogfennu penderfyniadau er mwyn gallu dangos bod opsiynau wedi'u hystyried yn llawn. Nododd JR fod asesiadau effaith integredig yn cael eu cwblhau ar gyfer penderfyniadau allweddol a chynigiodd rannu'r rhain â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen pan gaent eu cwblhau.

Cam Gweithredu: JR i rannu asesiadau effaith gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen pan fyddan nhw wedi'u cwblhau (parhaus)

- 3.5. Nododd PB fod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi ysgrifennu at Swyddogion Cyfrifyddu yn y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru gan gydnabod y byddai'n rhaid i lawer wneud penderfyniadau a oedd yn peri risg uwch ac argymell eu bod yn ystyried defnyddio nifer fach o bobl nad ydynt yn Weithredwyr i oruchwyllo. Dyma'r rheswm pam yr oedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu.
- 3.6. Er bod yr ymgynghoriad ar y trywydd iawn, nododd PB fod disgwyl problemau, yn ogystal â gweld cynnydd mewn lobiö gan randdeiliaid â buddiant. Un enghraifft oedd grŵp a oedd yn cynrychioli lleiafrifoedd a oedd yn pryderu am ragfarn bosibl ymysg athrawon. Roedd gweminar i fod i gael ei chynnal gyda nifer o grwpiau yn cynrychioli rhieni a grwpiau lleiafrifol ar 30 Ebrill.
- 3.7. Modelu Rhoddodd JR ddiweddariad ar fodelu – cafwyd cyfarfodydd mynych gyda CBAC – yn y cyfarfod yfory byddai CBAC yn cyflwyno eu cynllun ar gyfer datblygu opsiynau ar gyfer pob math o gymhwyster. Byddai Cymwysterau Cymru yn ystyried pa fodelau y dylid eu profi gyda data hanesyddol i gynhyrchu metrigau cywirdeb. Byddai penderfyniad ar y model gorau yn cael ei wneud ddiwedd mis Mai.
- 3.8. Nododd JR fod y gwaith yn dibynnu ar gael data dysgwyr gan Lywodraeth Cymru a byddai'r cais am ddata yn cael ei gyflwyno cyn bo hir. Roedd Llywodraeth Cymru am gael proses rhyddhau data 2 gam ond er mwyn bodloni'r amserlenni gofynnol ar gyfer y canlyniadau terfynol, roedd yn hanfodol nad oedd oedi cyn rhyddhau'r ail ddatganiad (o'r data manwl ar ymgeiswyr).
- 3.9. Gofynnodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen am y nifer o wahanol fodelau yr oedd eu hangen a sut y byddent yn gweithredu ochr yn ochr â'i gilydd. Trafodwyd yr angen i wneud addasiadau ar gyfer senarios fel canolfannau bach neu newydd.
- 3.10. Gofynnodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen am ymgeiswyr preifat. Nododd JR fod y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) yn bwriadu cyhoeddi gohebiaeth ar 30 Ebrill.

JR i anfon dolen i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gyhoeddiad y JCQ pan fyddai'n fyw

- 3.11. Cymwysterau Galwedigaethol Nododd JR fod Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y dull i'w gymryd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol cymeradwy Cymru. Ar gyfer cymwysterau dynodedig roeddem yn gweithio gydag Ofqual. Roedd Ofqual wedi ei gwneud yn ofynnol i bob corff dyfarnu gategoreiddio ei gymwysterau fel y rhai a ddefnyddid i symud ymlaen i addysg bellach neu uwch, ac a ddangosai gymhwysedd galwedigaethol neu gymysgedd o'r ddau. Byddai dull

rheoleiddio Ofqual yn seiliedig ar y fframwaith hwn – byddai gan gymwysterau raddau wedi'u cyfrifo; byddai asesiadau'n cael eu haddasu neu byddai dyfarniad y cymhwyster yn cael ei ohirio yn ôl categori.

- 3.12. Roedd Cymwysterau Cymru'n mabwysiadu dull tebyg gyda chymwysterau Cymru yn unig – roedd gwaith wedi'i gwblhau gyda'r consortiwm yn cynnig y cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol newydd; gydag Agored; a chyda'r pedwar corff dyfarnu yn cynnig cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.
- 3.13. Nododd DJ fod Cymwysterau Cymru wedi derbyn y Cyfarwyddyd Gweinidogol yn ymwneud â chymwysterau galwedigaethol.

AS i rannu'r Cyfarwyddyd gydag aelodau'r Bwrdd ynghyd â'r cofnodion

- 3.14. lechyd a Gofal Cymdeithasol Nododd JR fod Cymwysterau Cymru wedi cadarnhau'r dull o ymdrin â chymwysterau newydd a chymwysterau etifeddol yr wythnos diwethaf.
- 3.15. Trafododd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen effaith ariannol y pandemig ar y cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau cymeradwy - a chyrff dyfarnu eraill a'r risgiau yn y dyfodol. Awgrymodd IN y gallai'r Pwyllgor Rheoleiddio ystyried hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- 3.16. Nododd JR fod cais gan golegau i ohirio cyflwyno tri chymhwyster lechyd a Gofal Cymdeithasol lefel 3. Roedd y sefydliad wedi siarad â phob coleg, y consortiwm ac â Gofal Cymdeithasol Cymru a Gwella lechyd Cymru. Roedd gan wahanol randdeiliaid safbwyntiau gwahanol, ac nid oedd pob coleg yn dymuno gohirio. Addaswyd y cais i ofyn am redeg y cymwysterau newydd ac etifeddol yn ddeuol. Ystyriwyd rhinweddau rhedeg yn ddeuol ar gyfer pob cymhwyster. Roedd bwrdd rheoli Cymwysterau Cymru wedi adolygu'r manteision a'r anfanteision ac wedi penderfynu peidio â chaniatáu rhedeg y Safon Uwch neu ddiploma Lefel 3 Gofal Plant yn ddeuol, ond i'w ganiatáu am flwyddyn ar gyfer y diploma lechyd a Gofal Cymdeithasol. Esboniodd JR y rhesymeg a nododd fod y penderfyniadau wedi'u cyfleu i randdeiliaid a'u bod wedi'u derbyn.

4. Cofrestr Risg COVID 19

- 4.1. Nodwyd y byddai'r gofrestr risg yn cael ei hystyried gan y prif Fwrdd ym mis Mai.

5. Cyfathrebu

- 5.1. Bu gostyngiad yn nifer yr ymholiadau, roedd y ffocws o hyd ar flynyddoedd 10 a 12 gyda mwy o ymholiadau am y dull ar gyfer 2021.

6. Unrhyw Fater Arall

- 6.1. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu ac am eu cyfraniad i'r cyfarfod. Cytunwyd y byddai'r ddau gyfarfod nesaf yn cael eu cynnal, ac y câi un ei neilltuo i

adolygu'r ymgynghoriad. Byddai penderfyniad ar gyfarfodydd pellach yn cael ei wneud yn ddiweddarach. Nid oedd unrhyw fater arall.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 6 Mai 2020 14:30 pm